PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Canllaw Ymarfer Da –
# Polisi Gwisg Ysgol

**Comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, cynhyrchwyd gan Plant yng Nghymru**

**Hyrwyddo Polisi Gwisg Ysgol Teg / Hygyrchedd / Cynaliadwyedd**

## Pam mae angen y canllaw hwn?

Gyda chostau byw cynyddol yn rhoi pwysau ychwanegol ar deuluoedd, mae ysgolion yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod polisïau gwisg ysgol yn fforddiadwy, deg, yn gynhwysol ac yn gynaliadwy. Mae'r canllaw hwn yn rhannu enghreifftiau o arfer gorau yn seiliedig ar ganllawiau statudol, Llywodraeth Cymru, ynghyd â mewnwelediadau gan ysgolion a theuluoedd a gymerodd ran yn yr ymchwil.

## Enghreifftiau o Arfer Gorau

### Ysgol Evan James

Mae Ysgol Evan James yn dilyn canllawiau gwisg ysgol Cymru'n dda drwy gadw gwisg ysgol yn fforddiadwy ac yn hygyrch. Mae logos yn ddewisol, a chaniateir esgidiau du o unrhyw fath, ac mae rheilen dillad ail-law ar gael. Daw'r dillad o roddion, maent yn rhad ac am ddim ac maent bob amser ar gael. Mae'r eitemau sy'n rhan o'r wisg ysgol ar gael yn eang yn y rhan fwyaf o siopau'r stryd fawr, gan alluogi i rieni wneud dewisiadau mwy fforddiadwy. Mae newidiadau ymarferol, fel defnyddio'r un crys polo ar gyfer Addysg Gorfforol, a'r wisg ysgol, yn sicrhau bod y polisi yn gynhwysol ac yn canolbwyntio ar y gymuned, drwy wahodd rhieni i ymgynghori ar y diweddariad drwy gyfrwng holiadur.



"Rwyf wedi rhoi pethau ac yn adnabod pobl sydd wedi cymryd pethau hefyd"

"Rwy'n hoffi bod yr un fath â phawb arall."

"Gallwch chi fynd i unrhyw siop sy'n gwerthu dillad."

### Ysgol Gynradd Gymunedol Gwersyllt

Mae'r ysgol yn cynnal "siop" gwisg ysgol am ddim y gellir cael mynediad ati bob amser, o sied fetel heb ei chloi ar yr iard, sydd wedi cael ei chyflenwi drwy roddion gan deuluoedd a siopwyr lleol. Mae rhoddion wedi'u trefnu mewn loceri fesul maint, sy'n cael eu defnyddio i ailgyflenwi'r "siop". Mae'r system anffurfiol yma'n galluogi disgyblion, rhieni, athrawon a'r gymuned ehangach i gael mynediad rhwyddach at bob math o wisg ysgol, gan gynnwys cotiau gaeaf. Maw llawer yn gwerthfawrogi'r siop am gefnogi'r rhai sydd angen gwisg ysgol, a hynny heb gost nac eglurhad. Mae'r "siop" yn cael ei defnyddio'n eang, ac mae pobl yn dod i wybod amdani mewn amrywiol ffyrdd - drwy athrawon, rhieni, cyfryngau cymdeithasol, neu angen personol. Mae athrawon yn chwarae rhan weithredol, gan wirio'n rheolaidd i weld a yw plant angen gwisg ysgol a'u harwain at y sied pan fydd angen. Mae'n rhan arferol, gefnogol o fywyd ysgol, lle mae sylwi ar angen yn arwain at weithredu.







"Gallwch egluro eich diffyg gwisg ysgol wrth athro os yw'n digwydd unwaith yn unig, ond os ydynt yn sylwi bod hyn yn digwydd fwy nag unwaith, byddant yn cynnig mynd â chi i gasglu gwisg ysgol newydd."

"Hefyd, mae cwpwrdd cymunedol gyda bwyd a nwyddau ystafell ymolchi hefyd ar yr iard."

"Rydw i jest yn gallu mynd yna os ydw i angen rhywbeth neu os ydw i'n mynd yn fudur wrth chwarae."

"Mae'n wirioneddol dda i bobl sydd ei angen."

"Mae'r siop yn dda oherwydd gall pobl sydd angen pethau ond nad ydyn nhw'n gallu eu fforddio, eu cael am ddim yn hawdd."

## Ysgol Brynteg

Mae 'Vinteg', a lansiwyd ddwy flynedd yn ôl gan ddisgyblion Blwyddyn 10 drwy fenter Ymddiriedolaeth y Tywysog, yn hyrwyddo cynaliadwyedd tra'n dysgu sgiliau bywyd gwerthfawr. Mae'n galluogi plant i archebu eitemau o wisg ysgol - megis tei, crys a siwmper - drwy gôd QR sydd i'w weld ar wefan yr ysgol o dan yr adran costau byw, gyda'r eitemau'n cael eu danfon neu eu codi o dderbynfa'r disgyblion. Mae'r fenter hefyd yn cynnwys Siop Prom Pop-yp, gydag eitemau'n cael eu rhoi gan Tesco a rhieni, ac mae dolen ar y wefan i gyfrannu. Mae disgyblion yn rheoli'r gwaith smwddio, golchi a phecynnu eitemau, wedi'u cefnogi gan beiriant golchi ar y safle a silffoedd wedi eu talu amdanynt gan roddion. Mae eiddo coll yn cael ei roi i fod ar gael ar ôl y tymor, ac mae nosweithiau rhieni sy'n agored i'r gymuned yn cynyddu hygyrchedd.






"Mae Tesco yn rhoi dillad am ddim i ni."

"Mae eitemau sydd wedi eu colli a'u canfod yn cael eu defnyddio os nad oes neb yn eu hawlio ar ôl tymor."

"Mae pobl yn archebu ar-lein ac yna rydyn ni'n pacio ac yn labelu eu harcheb ac yn ei adael yn y dderbynfa."

"Rydym ni'n ei drefnu bob dydd Mercher."

"Mae'n cyfrif tuag at rywbeth, felly nawr mae gennym ni fwy o bobl yn rhan ohono."

**Rhai pethau i'w hystyried wrth sefydlu cynllun gwisg ysgol ail-law:**

- Sut allwn ni sicrhau bod y cynllun wedi'i anelu at rieni a disgyblion?
- Beth yw pwrpas y cynllun?
- Pryd a sut fydd cyfraniadau'n cael eu casglu?
- Sut fydd cyfraniadau'n cael eu trefnu a'u glanhau?
- Ble fyddwn ni'n cadw cyfraniadau?
- Sut fyddwn ni'n gadael i ddisgyblion a rhieni wybod am y cynllun?
- Sut y gallwn sicrhau ein bod yn gwneud gwisg ysgol yn fwy hygyrch a fforddiadwy?
- Sut fydd pobl yn 'archebu' a 'chasglu' eu gwisg ysgol?
- Pwy fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r cynllun?
- Sut allwn ni gynnwys disgyblion yn y fenter?
- Sut ydym ni'n lleihau stigma o ddefnyddio gwisg ysgol ail-law?
- Sut allwn ni gynyddu rhoddion?
- Sut allwn ni sicrhau bod polisïau unffurf yn gyfeillgar i'r amgylchedd?


## Teimladau Ynghylch Dyddiau Di-iwnifform

Er ein bod yn gwybod y straen ariannol y gall polisïau gwisg ysgol â brand hanfodol yn ei achosi, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cael gwybod bod pwysau ariannol cynyddol ar deuluoedd ar diwrnodau di-iwnifform, a diwrnodau gwisgo i fyny â thema. Gofynnwyd i ddisgyblion am eu profiadau a'u theimladau ar ddiwrnodau di-iwnifform.

**Rhyddid Mynegiant a Chefnogaeth i Elusennau**

**Bod dan Bwysau, Dryswch a Bwlio**

**Cydbwyso Rhyddid a Strwythur**



"Mae'n rhywbeth rwy'n edrych ymlaen ato, dangos fy steil a theimlo ychydig mwy fel fi fy hun."

"Byddai'n well gen i wneud rhywbeth gwahanol i beidio gwisgogwisg ysgol."

"Mae rhai pobl yn bwlio eraill am beidio gallu fforddio rhai mathau o ddillad, sy'n gallu gwneud i rywun deimlo dan bwysau."

"Mae pwrpas iddo, i godi arian at elusen neu achos da."

"Does dim digon o reolau ynghylch beth allwch chi a beth na allwch chi'i wisgo, felly gall dewisiadau pobl fod yn amhriodol, neu eu bod yn gwisgo pethau na all eraill eu fforddio."

**Dyddiau amgen a awgrymwyd gan ddisgyblion:** **sanau o bob pâr**, **dysgu yn yr awyr agored**, **gemau**, **gwallt gwyllt**, **diwrnod pyjamas**

## Llais y Disgybl

Erthygl 12: Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi'i farn, ei deimladau a'i ddymuniadau ar bob mater sy'n effeithio arno, ac i'w ddymuniadau gael eu hystyried a'u cymryd o ddifrif.



**Yr hyn a glywsom gan ddisgyblion yr oedd eu hysgol yn dilyn polisïau gwisg ysgol ac ymddangosiad sy'n feddylgar:**

"Gallwch fynd i unrhyw siop sy'n gwerthu dillad."

"Os yw hi'n oer y tu allan gallwch nôl siwmper o'r rheilen os yw eich siwmper chi gartref."

"Gallwch gael dillad newydd o'r 'siop'."

"Rwy'n teimlo'n rhan o gymuned"

"Dydyn ni ddim angen logos, dim ond y lliw cywir."

"Mae'n beth da nad ydyn ni'n gorfod cael logos; maen nhw'n ddrud a does dim llawer o siopau sy'n eu gwneud."

## Cynnwys Disgyblion

### Penderfyniadau ynghylch Gwisg Ysgol

- Gofyn i ddisgyblion sut maent yn teimlo ynghylch gwisg ysgol
- A oes angen unrhyw newid?
- Pa newidiadau fydden nhw'n eu hargymell?
- Sut allwn ni wneud yn siŵr ei fod yn gost effeithiol?
- A oes unrhyw broblemau?

*"Mae'r cyngor ysgol yn aml yn mynegi barn a safbwyntiau myfyrwyr, sy'n galluogi i'r myfyrwyr gymryd mwy o ran wrth wneud penderfyniadau."*

### Y Cynllun Gwisg Ysgol Ail Law

- Beth fyddech chi'n ei newid ynghylch y cynllun presennol?
- Ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth: Sut allwn ni wneud disgyblion a rhieni yn fwy ymwybodol ohono?
- Ydych chi'n meddwl y gall disgyblion gymryd mwy o ran ynddo? Sut?

*"Mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth o'r cynlluniau ail-law fel bod gan bawb y cyfle i gael budd ohonynt."*

### Polisi

- Ymgynghori gyda disgyblion ar unrhyw newidiadau arfaethedig
- Ymgysylltu gyda chynrychiolwyr o'r cyngor ysgol
- Ydyn nhw'n credu bod y newidiadau'n deg a chytbwys?

*"Fel cyngor ysgol, hoffem chwarae mwy o ran gyda'r wisg ysgol"*

*"Rydyn ni'n ceisio gwneud pethau'n deg i deuluoedd."*

## Ffyrdd o ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni a rhoddwyr gofal:

Digwyddiadau ysgol (cyngherddau, diwrnodau mabolgampau a.y.y.b.) ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth

Catalog, gwefan yr ysgol neu ap

Diwrnodau agored a nosweithiau rhieni

Posteri o amgylch yr ysgol

Ffeiriau Ysgol

Cylchlythyr yr Ysgol

Llwyfannau ar-lein y mae gan rieni fynediad atynt (e.e. Dojo, Seesaw)

Platfformau cyfryngau cymdeithasol (Facebook, Instagram a.y.y.b.)

## Beth i'w ystyried wrth asesu polisi gwisg ysgol ac ymddangosiad:

- Ystyried costau, ai dyma'r polisi mwyaf cost effeithiol?
- Beth yn fwy gallwn ni ei wneud i leihau costau?
- A oes modd prynu gwisg ysgol gan nifer o wahanol gyflenwyr er mwyn darparu dewis a gwella fforddiadwyedd?
- A yw'r holl eitemau'n angenrheidiol?
- Sut y gallwn sicrhau bod disgyblion yn cael dweud?
- A yw'r eitemau'n fforddiadwy ac ar gael gan amrywiaeth o gyflenwyr?
- Sut ydym ni wedi ystyried y ddeddf gydraddoldeb?
- A yw'r polisi yn rhywedd-niwtral?
- A oes gennym ni gynllun gwisg ysgol ail law?
- Sut gallwn ni hyrwyddo gwisg ail law?